

**DYMA WŶS I CHI I GYFARFOD O Gyd-Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf YN CAEL EI GYNNAL YN rhithwir AR Dydd GWENER, 11EG MEDI, 2020 AM 2.00 PM.**

Dolen gyswllt: Sarah Handy – Swyddog Graddedig – Ymchwil a Materion Craffu (01443424099)

### **AGENDA**

#### **1. 5 SWYDDOGAETH STATUDOL GRAIDD CYDBWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CWM TAF**

Atgoffir aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu, fel y nodir yn ei gylch gorchwyl, bod eu swyddogaethau statudol craidd yn cynnwys: -

- Adolygu neu graffu ar y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan y Bwrdd neu'r camau mae'r Bwrdd yn eu cymryd;
- Adolygu neu graffu ar drefniadau llywodraethu'r Bwrdd;
- Paratoi adroddiadau neu wneud argymhellion i'r Bwrdd ynghylch ei swyddogaethau neu'i drefniadau llywodraethu;
- Ystyried materion sy'n ymwneud â'r Bwrdd fel y gall Gweinidogion Cymru gyfeirio atyn nhw, ac adrodd i Weinidogion Cymru yn unol â hynny;
- Cyflawni swyddogaethau eraill mewn perthynas â'r Bwrdd sydd wedi'u gosod arno gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

#### **2. DATGANIAD O FUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau o'r Pwyllgor yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm y mae eu buddiant yn ymwneud ag e, a mynegi natur y buddiant personol hwnnw: a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

#### **3. COFNODION**

Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2020 yn rhai cywir.

5 - 10

**4. CADEIRYDD BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CWM TAF**

Derbyn y Cynghorydd Kevin O'Neill, Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf (PSB), a fydd yn rhoi diweddariad am gynnydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'r Pwyllgor.

**5. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYDBWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CWM TAF AR GYFER 2019-20**

Derbyn Mr Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, a fydd yn rhoi trosolwg i'r Aelodau o Adroddiad Blynyddol Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2019-20.

11 - 30

**6. UNRHYW FATER ARALL**

Trafod unrhyw faterion eraill y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.

**7. ADOLYGIAD Y CADEIRYDD A DOD Â'R CYFARFOD I BEN**

Adlewyrchu ar y cyfarfod a'r camau gweithredu i'w dwyn ymlaen.

**8. ADRODDIADAU ER GWYBODAETH**

D.S. Mae modd gweld Adroddiadau er Gwybodaeth trwy'r dolenni canlynol:-

- [Cofnodion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf.](#)
- [Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus dros dro;](#)
- Cofnodion Drafft y BGC - Gorffennaf 2020 (ddim wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd eto);
- 'Llythyr Adfer Gwyrdd' Cyfoeth Naturiol Cymru i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig;
- Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol at Gadeiryddion Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus;
- [Crynodeb Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys o Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020;](#) ac

- [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020](#)

(Mae hyn fel bod modd i'r Aelodau gydnabod yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad, ond dylid anfon unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'r eitem at [Craffu@rctcbc.gov.uk](mailto:Craffu@rctcbc.gov.uk))

### **Cylchrediad:-**

#### **Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol: T. Skinner (Is-Gadeirydd), K. Gibbs, J. Davies, D. Issac, D. Sammon.

#### **Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol: J. Bonetto (Cadeirydd), G. Caple, W. Jones, M. Powell a A. Cox.

#### **Aelodau cyfetholedig:**

Mr M. Jehu OBE – Bwrdd Iechyd Lleol

Mr J. Jenkins – Cyngor Iechyd Cymuned

Ms M. Lewis – Cynrychiolydd Dinasyddion RhCT

Mr M. J. Maguire – Cynrychiolydd Dinasyddion Merthyr Tudful